



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2004 Rhif 2747 (Cy.245)**

**2004 No. 2747 (W.245)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau  
Aberhonddu a Llanfrynach)  
2004**

**The Powys (Brecon and  
Llanfrynach Communities) Order  
2004**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn gwneud yn effeithiol gynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, a hynny heb eu haddasu. Effaith y cynigion hynny yw newid y ffin rhwng cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach, fel bod yr eiddo "White House" ym mhentref Groesffordd bellach yn rhan o Gymuned Llanfrynach.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect without modification to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales. The effect of those proposals is that the boundary between the communities of Brecon and Llanfrynach is amended so that the property of "White House" in the village of Groesffordd is to be in the Community of Llanfrynach.

Newidir y ffin rhwng Ward y Santes Fair yng Nghymuned Aberhonddu (sy'n ffurfio adran etholiadol y Santes Fair) a Chymuned Llanfrynach, gan gynnwys cymunedau Glyn Tarell a Thal-y-bont ar Wysg (sydd oll yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tal-y-bont ar Wysg) fel ei bod yn cyd-fynd â'r ffin gymunedol newydd, fel y'i dangosir ar y map ffiniau.

The boundary between the Brecon Community Ward of St. Mary (which forms part of the electoral division of St. Mary) and the Community of Llanfrynach, including the communities of Glyn Tarell and Talybont-on-Usk (which all form part of Talybont-on-Usk electoral division), is amended to correspond with the new community boundary as shown on the boundary map.

Adneuir printiau o'r map ffiniau a gellir edrych arnynt yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfydd Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys ac yn swyddfydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Prints of the boundary map are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Powys County Council, at County Hall, Llandrindod Wells, Powys and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff.

Mae Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd), y cyfeirir atynt yn erthygl 1(2) o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith a gweithredu gorchymynion megis y gorchymyn hwn.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) referred to in article 1(2) of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provision about the effect and implementation of orders such as this.

**2004 Rhif 2747 (Cy.245)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau  
Aberhonddu a Llanfrynach)  
2004**

*Wedi'i wneud*

*13 Hydref 2004*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)*

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, ac yntau wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a), dyddiedig Rhagfyr 2003, ynghylch adolygiad Cyngor Sir Powys o'r ffin rhwng Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach yn Sir Powys, ynghyd â'r cynigion a ffurfiwyd gan y Comisiwn;

A Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi penderfynu gwneud y cynigion yn effeithiol heb eu haddasu;

A chan fod mwy na chwech wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Yn awr, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(b), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a Chychwyn**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2004, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, ag eithrio bod y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2004 at y dibenion a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976.

---

(a) 1972 (p.70).

(b) (O.S. 1999/672).

**2004 No. 2747 (W.245)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**The Powys (Brecon and  
Llanfrynach Communities) Order  
2004**

*Made*

*13 October 2004*

*Coming into force in accordance with Article 1(2)*

The Local Government Boundary Commission for Wales, having submitted to the National Assembly for Wales, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(a), a report dated December 2003 on a review carried out by Powys County Council of the boundary between the Communities of Brecon and Llanfrynach in the County of Powys, together with the proposals formulated by the Commission;

And the National Assembly for Wales having decided to give effect to those proposals without modification;

And more than six weeks having elapsed since those proposals were submitted to the National Assembly for Wales;

Now the National Assembly for Wales, in exercise of the powers given to the Secretary of State under section 58(2) of the Local Government Act 1972 and which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999(b), makes the following Order:

**Name and Commencement**

1.-(1) This Order is called the Powys (Brecon and Llanfrynach Communities) Order 2004.

(2) This Order comes into force on 1 April 2005, which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purposes set out in regulation 4(1) of the 1976 Regulations, this Order comes into force on 1 December 2004.

---

(a) 1972 (c.70).

(b) (S.I. 1999/672).

## Dehongli

### 2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd wedi'i farcio "Map Ffiniau Gorchymyn Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004" ac a adnewydw yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 fel y'u diwygiwyd(a).

### Newid i ardal gymunedol a newid canlyniadol i adran etholiadol

3. Mae'r ffin rhwng y rhannau hynny o gymuned Aberhonddu (Ward y Santes Fair) sy'n ffurfio adran etholiadol y Santes Fair, a chymuned Llanfrynach sy'n ffurfio rhan o adran etholiadol Tal-y-bont ar Wysg, fel y mae wedi'i marcio ar y map ffiniau fel "Ffin Gymunedol Newydd", gyda'r canlyniad bod yr ardal o dir a ddangosir gyda llinellau rhesog du ar y map ffiniau, gan gynnwys yr eiddo a elwir "White House", i'w chynnwys yng Nghymuned Llanfrynach yn lle yng Nghymuned Aberhonddu.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.

13 Hydref 2004

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## Interpretation

### 2. In this Order -

"the boundary map" ("*y map ffiniau*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Boundary Map of the Powys (Brecon and Llanfrynach Communities) Order 2004" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations.

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976 as amended(a).

### Change to community area and consequential change to electoral area

3. The boundary between those parts of the community of Brecon (St. Mary Ward), which forms the St. Mary's electoral division, and the community of Llanfrynach, which forms part of the Talybont-on-Usk electoral division, is as shown on the boundary map marked "New Community Boundary", with the result that the area of land shown hatched on the boundary map, including the property known as "White House" is to be included in the Community of Llanfrynach instead of in the Community of Brecon.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales.

13 October 2004


*Sue Essex*

The Minister for Finance, Local Government and Public Services

(a) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 O.S. 1978/247.

(a) S.I. 1976/246 as amended by the Local Government Area Changes (Amendment) Regulations 1978 S.I. 1978/247.


## Map Ffiniau Gorchymyn Sir Powys (Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach) 2004



Mae'r map hwn wedi'i seilio ar fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi. © Hawffraint y Goron 2004. Cedwir pob hawl.  
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

Cartograffeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Boundary Map of the Powys (Brecon and Llanfrynach Communities) Order 2004



This map is based upon the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2004. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916





---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2004 Rhif 2747 (Cy.245)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**Gorchymyn Powys (Cymunedau  
Aberhonddu a Llanfrynach)  
2004**

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2004 No. 2747 (W.245)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**The Powys (Brecon and  
Llanfrynach Communities) Order  
2004**

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**


W152/10/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091012-5



9 780110 910123